OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1047

## Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007

## RHAN 1

Cyflwyniad

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007. Daw i rym ar 30 Mawrth 2007 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn, ac y defnyddir yr ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn y Rheoliadau canlynol, yr un ystyr yn y Gorchymyn hwn ag ystyr yr ymadroddion Saesneg hynny yn y Rheoliadau hynny.

(3) Y Rheoliadau yw—

(a) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig a'r Cyfarwyddebau diwygio, sef 64/432/EEC a 93/119/EC, a Rheoliad (EC) 1255/97(**1**);

(b) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/97 ynghylch meini prawf y Gymuned ar gyfer mannau aros ac yn diwygio'r cynllun o'r llwybr y cyfeirir ato yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 91/628/EEC(**2**).

(4) Ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*"*) mewn perthynas ag ardal yw'r cyngor sir neu'r* cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno.

(5) Ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(6) Mae unrhyw gyfeiriad at y Rheoliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (3) yn gyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

### Ymestyn y diffiniad o "animals" a "poultry"

**3.** At ddibenion y Ddeddf yn y modd y mae'n gymwys i'r Gorchymyn hwn, mae'r diffiniadau o "animals" a "poultry" yn adran 87 o'r Ddeddf yn cael eu hymestyn i gwmpasu pob anifail asgwrn cefn a phob anifail di-asgwrn-cefn â gwaed oer.

(**1**) OJ L 3, 5.1.2005 t.1.
(**2**) OJ L 174, 2.7.97 t.1.